**Hysbysiad Preifatrwydd Cyn-fyfyrwyr**

**Diben yr Hysbysiad hwn**

Mae'r Hysbysiad hwn yn egluro sut mae'r Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio eich data personol drwy'r tîm Cyn-fyfyrwyr a Chyfathrebu, Marchnata, Recriwtio a Derbyniadau , Adrannau ac Ysgolion ar gyfer gweithgareddau datblygu a chyn-fyfyrwyr.

Gweler isod ragor o wybodaeth ynghylch y gweithgareddau cyn-fyfyrwyr sy'n berthnasol i'r Hysbysiad hwn.

Drwy gydol yr Hysbysiad hwn, mae "Prifysgol" "ni" ac "ein" yn cyfeirio at Brifysgol Glyndŵr. Mae "chi" ac "eich" yn cyfeirio at gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, ynghyd ag unigolion eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau datblygu a chyn-fyfyrwyr.

Ni yw'r rheolwr data ar gyfer data personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch chi.

Mae'r Coleg yn cydymffurfio'n â'r gofynion o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.

**Newidiadau i'r Hysbysiad hwn**

Cyn gweithredu GDPR, mae'n debygol y byddwn yn gwneud rhai newidiadau i'r Hysbysiad hwn. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau i'r Hysbysiad hwn.

Mae fersiwn presennol o'r Hysbysiad hwn ar gael yn https://www.glyndwr.ac.uk/en/studentsupport/alumni/join

**Unrhyw beth nad ydych yn sicr ohono**

Os oes unrhyw beth nad ydych yn sicr ohono, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data, a fydd yn fwy na pharod i ateb unrhyw ymholiad sydd gennych yn berthnasol i'r Hysbysiad hwn, neu'r ffordd rydym yn prosesu eich data personol dpo@glyndwr.ac.uk

Mae manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data wedi eu nodi ar ddiwedd yr Hysbysiad hwn.

**Ymrwymiad y Brifysgol i gyn-fyfyrwyr**

Pan ydych chi'n fyfyriwr yn y Brifysgol, rydych yn dod yn aelod o'r Brifysgol yn awtomatig, a gan amlaf yn dod yn aelod o gymuned cyn-fyfyrwyr y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn addo cynnig

gwasanaethau cyn-fyfyrwyr i gyn-fyfyrwyr y Brifysgol ac mae'r addewid hwn nawr yn rhan o'r cytundeb myfyriwr. Mae'r Brifysgol yn ystyried y gwasanaethau hyn i fod yn rhan bwysig ac annatod o ymrwymiad hirdymor y Brifysgol i'w fyfyrwyr.

Ewch i http://www.glyndwr.ac.uk/en/studentsupport/alumni am ragor o wybodaeth.

**O ble mae'r Brifysgol yn cael eich data personol?**

Rydym yn casglu eich data personol o'r ffynonellau canlynol:

Y Brifysgol

- drwy drosglwyddo o gronfa ddata lleol a chanol myfyrwyr y Brifysgol (os oeddech chi'n fyfyriwr) i gronfa ddata cyn-fyfyriwr wedi ichi raddio

Data rydych wedi ei roi yn ystod:

- cofrestru ar gyfer Cyn-fyfyrwyr Glyndŵr Ar-lein
- darparu gwybodaeth drwy un o'n gwefannau er enghraifft drwy Moodle, cystadlaethau cylchlythyrau, trafodaethau gwirfoddoli a rhoddion
- cwblhau a dychwelyd arolygon neu ffurflenni ymateb fel ffurflenni dewisiadau cyswllt, ffurflenni Rhodd Cymorth (drwy'r post, e-bost neu drwy wefan y Brifysgol)
- trafodaethau gyda chynrychiolwyr y Brifysgol (er enghraifft, gyda'n tîm Cofrestru)
- cofrestru i fynd i ddigwyddiad sy'n berthnasol i gyn-fyfyrwyr

Ffynonellau trydydd parti

- gan ffynonellau trydydd parti fel sefydliadau sydd yn ein cynorthwyo â dilyn ein prosesau a ddisgrifir isod, erthyglau'r cyfryngau, ffeiliau elusennau a chwmni, neu swyddi rhwydweithio cymdeithasol neu ffynonellau cyhoeddus eraill er enghraifft y rhyngrwyd.

Fel y rhan fwyaf o wefannau, bydd rhai camau a gymerwch yn cael eu cofnodi'n ddienw fel cwcis gan wefannau'r Brifysgol. Gweler y wefan Cyn-fyfyrwyr i gael rhagor o wybodaeth https://www.glyndwr.ac.uk/en/disclaimer/

**Pam ein bod yn prosesu eich data personol**

Byddwn yn defnyddio eich data i'n helpu i gynnal cymuned cyn-fyfyrwyr sy'n ymgysylltu. Gweler y wefan Cyn-fyfyrwyr i gael rhagor o wybodaeth https://www.glyndwr.ac.uk/en/disclaimer/

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio eich data personol at y dibenion canlynol:

Gweinyddu

- i wirio cyfrif ac i gynnig profiad personol ichi pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer gwefan Cyn-fyfyrwyr Glyndŵr Ar-lein
- i brosesu rhodd rydych wedi ei rhoi (ac unrhyw hawliadau Cymorth Rhodd)
- cofrestru ar gyfer digwyddiad
- i gadw cofnod o'r cyfathrebu rhyngom

Aduniadau

Efallai bydd y gymuned cyn-fyfyrwyr yn cynnal aduniadau o bryd i'w gilydd. Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth er mwyn helpu'r trefnwr i ganfod pwy i'w gwahodd

Mae'r Brifysgol yn rhoi manylion cyn-fyfyrwyr o grŵp blwyddyn a chwrs dewisol, yn ôl gofyn y trefnydd. Mae'r manylion sy'n cael eu rhoi yn cynnwys enw cyntaf a chyfenw (fel mae'n ymddangos ar gronfa ddata cyn-fyfyrwyr y Brifysgol), gradd, cwrs a blwyddyn graddio. Mae manylion fel arfer yn dangos y bobl mae'r Brifysgol mewn cyswllt â nhw, a'r ymadawedig.

Os yw'n well gennych chi inni beidio â chynnal y gweithgareddau uchod, e-bostiwch alumni@glyndwr.ac.uk

YMWELD Â'R CAMPWS - MONITRO, OLRHAIN A DIOGELU

Er mwyn ymateb yn y ffordd orau i'n cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Iechyd y Cyhoedd, mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol gasglu manylion personol amdanoch fel ymwelydd i'n campws. Rydych yn darparu'r wybodaeth hon am reswm penodol a byddwn yn prosesu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu eich buddiannau allweddol (Erthygl 6(1)(d)) ac er mwyn perfformio tasg gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i'r Brifysgol gydymffurfio â'n cyfrifoldebau cyfreithiol o ran iechyd y cyhoedd (Erthygl 6(1)(e). Mae casglu'r wybodaeth hon yn angenrheidiol i sicrhau eich diogelwch a'ch llesiant wrth ymweld â'r campws, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i reoli a'n galluogi i'ch cadw'n ddiogel yn effeithiol. Ni chedwir yr wybodaeth ar y ffurflen am fwy na thri mis a bydd yn cael ei chadw'n ddiogel a'i dinistrio yn defnyddio ein proses gwastraff

cyfrinachol. Lle bo angen, rhannu eich manylion cyswllt a gwybodaeth categori arbennig (iechyd) â sefydliadau i reoli a lliniaru lledaeniad ac effaith risgiau'r achosion presennol o'r coronafeirws (COVID-19) i iechyd y cyhoedd (e.e. Monitro, Olrhain a Diogelu). Erthygl 9 (2) (c) mae prosesu "categorïau arbennig" o ddata yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu berson naturiol arall - drwy rannu manylion cyswllt person (au) sydd â symptomau iechyd gwael (e.e. symptomau Covid-19) y gall gwrthrych y data neu berson naturiol arall fod wedi dod i gysylltiad â nhw ar safle'r Brifysgol ac a all ddioddef cyflyrau iechyd sylfaenol. Erthygl 9(2)(g) - budd sylweddol i'r cyhoedd a DPA 2018, Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 6 (at ddibenion Statudol a Llywodraeth) Erthygl (9) (2) (i) - dibenion iechyd y cyhoedd a DPA 2018 - Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3 Iechyd y Cyhoedd.

Proffilio a chynllunio

Rydym yn defnyddio eich data (fel cod post, pwnc astudiaeth, oed, rhyw a lefel o ymgysylltiad â'r Brifysgol) i'n helpu i gynllunio ein gweithgareddau, a phenderfynu a ddylem ni gysylltu â chi gyda chyfathrebiadau penodol, neu wybodaeth ynghylch gweithgareddau penodol. Mae'n ein helpu i adnabod sut mae ein cyn-fyfyrwyr ynghlwm â'r Brifysgol, a pha weithgareddau cyn-fyfyrwyr sydd mwyaf poblogaidd. Mae'r ymchwil hwn yn ein helpu i sicrhau bod ein cyfathrebu (gan gynnwys ceisiadau gwirfoddoli neu godi arian) yn berthnasol ac o ddiddordeb i chi.

Os yw'n well gennych inni beidio â chynnal y gweithgaredd uchod, e-bostiwch alumni@glyndwr.ac.uk

**Data dienw**

Efallai bydd eich data'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau cyn-fyfyrwyr pan mae'n ddienw ac nid yw'n cael ei ystyried i fod yn ddata personol.

**Cadw'r data diweddaraf**

Byddwn yn diweddaru'r data rydym yn ei gadw amdanoch o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, os ydych yn rhoi manylion cyswllt newydd inni neu'n newid eich manylion ar wefannau sy'n cael eu rheoli gan y Brifysgol, fel Cyn-fyfyrwyr Glyndŵr Wrecsam neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu LinkedIn. Byddwn yn ymateb i'ch cais ar gyfer diweddaru eich data.

Os hoffech chi inni ddiweddaru eich data, e-bostiwch alumni@glyndwr.ac.uk

**Pwy all weld eich data?**

Mae eich data'n cael ei gadw'n ddiogel o fewn y Brifysgol. Mae mynediad yn cael ei reoli'n llym ac mae staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu data.

Yn ogystal â thrydydd partïon yn ein helpu ni i gadw eich data'n ddiweddar, er mwyn rhoi hwb i ymarferoldeb ac effeithlonrwydd, efallai y byddwn yn cyflogi arbenigwyr TG nad ydynt o'r Brifysgol i helpu datblygu ein systemau. Efallai y byddant yn cael mynediad i wybodaeth sydd yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r dasg benodol y maent wedi eu cyflogi i'w chyflawni. Bydd yr arbenigwyr hyn yn cynnig eu gwasanaethau yn unol â chyfarwyddiadau llym y Brifysgol. Yn benodol, mae'n rhaid iddynt barchu cyfrinachedd, ac os ydynt angen cadw unrhyw ddata dros dro, mae'n rhaid cadw'r data'n ddiogel, a'i ddefnyddio at y dibenion y cytunwyd arnynt yn unig, wedi ei gadw cyhyd ag y bo angen ac yna ei ddinistrio.

Ni fyddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon at eu dibenion masnachol

**Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch**

Mae gofyn i bob prifysgol yn y DU gyflwyno manylion cyswllt graddedigion diweddar i HESA (yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) er mwyn cynnal arolwg cyrchfannau graddedigion.

- Bydd HESA yn cysylltu â graddedigion sydd yn gorffen eu hastudiaethau o fis Awst 2017 ymlaen 15 mis wedi iddynt raddio er mwyn cwblhau'r arolwg "Cyrchfannau Graddedigion". Gweler https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices).

Mae'r arolygon hyn yn helpu i lywio polisi'r llywodraeth. Maent hefyd yn cael eu defnyddio yng nghyfrifiadau tablau cynghrair y prifysgolion eu hunain er mwyn asesu effaith hirdymor profiad y myfyriwr. Darperir y data i HESA at y diben hwn yn unig. Bydd pob un o'r graddedigion diweddar y mae hyn yn berthnasol iddynt yn cael yr opsiwn i beidio â chwblhau'r arolwg pan fyddant yn cael eu cysylltu'n gyntaf.

**Cyfathrebu**

Byddwn yn cysylltu â chi o bryd i'w gilydd trwy e-bost at y dibenion a nodwyd uchod. Yn benodol, rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda phobl at y dibenion canlynol:

- rhannu newyddion ynghylch y Brifysgol (gan gynnwys gwaith ymchwil a gwasanaethau) a'n cyn-fyfyrwyr (gan gynnwys hyrwyddo gostyngiadau a gwasanaethau ar gyfer cyn-fyfyrwyr)
- eich gwahodd i ddigwyddiadau ac aduniadau
- eich gwahodd i wirfoddoli ar gyfer y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr a chynrychiolwyr y Brifysgol a rhoi cymorth i fyfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Brifysgol a gyda'u gyrfaoedd.

Os byddai'n well gennych chi inni beidio â defnyddio eich data at unrhyw un o'r dibenion uchod, neu o gwbl, e-bostiwch alumni@glyndwr.ac.uk

Os nad ydych yn medru datdanysgrifio o'n cyfathrebiadau a/neu yn dal i fod yn bryderus, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data (gweler manylion cyswllt yn ddiweddarach).

**Cadw**

Rydym yn ystyried bod yn aelod o'r Brifysgol ac yn rhan o'r gymuned cyn-fyfyrwyr yn berthynas gydol oes. Yn gyffredinol, bydd y Brifysgol yn ceisio cadw data personol cyn-fyfyrwyr y Brifysgol nes bod yr unigolyn yn gofyn inni ddileu'r data o'n cofnodion. Rydym yn eich atgoffa'n rheolaidd bod gennych yr hawl i fynnu ein bod yn dileu eich data personol.

Os ydych yn penderfynu nad ydych eisiau derbyn cyfathrebiadau gan y Brifysgol mwyach, byddwch yn ymwybodol bod angen i ni gadw nifer bach o ddata personol fel ein bod yn gallu cadw cofnod eich bod wedi gofyn inni beidio â chysylltu â chi.

Os nad ydych yn aelod o gymuned cyn-fyfyrwyr y Brifysgol, bydd unrhyw ddata personol sydd wedi ei gadw'n cael ei ddileu os nad ydych yn ymateb i'n hymdrechion i gysylltu â chi, neu os ydych yn nodi nad oes gennych ddiddordeb mewn ffurfio perthynas â'r Brifysgol.

**Eich hawliau fel gwrthrych y data**

O dan GDPR, mae gennych yr hawl i:

- dynnu eich caniatâd yn ôl os mai dyna yw sail gyfreithiol ein prosesu
- cael mynediad i'ch data personol rydym yn ei brosesu
- cywiro gwallau yn y data personol sydd gennym amdanoch chi
- cael eich anghofio, hynny yw dileu eich manylion o'r systemau a ddefnyddiwn i brosesu eich data personol
- cyfyngu ar brosesu eich data mewn ffyrdd penodol
- cael copi o'ch data mewn ffurf electronig a ddefnyddir yn gyffredin; a
- gwrthwynebu mathau penodol o brosesu data personol gennym ni

I gael gwybodaeth bellach am yr hawliau uchod ewch i https://ico.org.uk. Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth.

Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch y ffordd rydym yn prosesu eich data personol. Ewch i https://ico.org.uk.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data o dan GDPR**

Mae GDPR yn gyfraith newydd nad yw wedi ei chymhwyso eto i amgylchiadau tebyg o ran cyd-destun i'n perthynas â chyn-fyfyrwyr. Mae dal gwaith deall y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data, fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn prosesu eich gwybodaeth yn seiliedig ar eich

caniatâd. Wrth i safbwyntiau cyfreithiol aeddfedu, efallai bydd y Brifysgol yn newid ei safbwynt ar ei sail gyfreithiol ar gyfer prosesu.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud ymrwymiad cytundebol i fyfyrwyr, fel aelodau oes o'r Brifysgol, i gynnig gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer cyn-fyfyrwyr. Felly, bydd y Brifysgol hefyd yn prosesu data yn aml ar y sail bod angen gwneud er mwyn bodloni'r ymrwymiadau cytundebol i gyn-fyfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn credu bod cefnogi cyn-fyfyrwyr y Brifysgol a gweithgareddau datblygu eraill sy'n cael eu cynnal o fudd i'r cyhoedd. Yn benodol, mae'n cefnogi nod elusennol y Brifysgol o addysg a'r buddion i gymdeithas sy'n deillio o hynny.

Weithiau, bydd y Brifysgol yn prosesu eich data oherwydd eich bod wedi ei wneud yn gyhoeddus.

Yn olaf, mae'r Brifysgol yn credu bod ei weithgareddau yn angenrheidiol at ddibenion ddiddordeb dilys y Brifysgol a thrydydd partïon eraill Nid yw'r diddordebau hyn yn cael eu diystyru gan ddiddordebau a hawliau sylfaenol na rhyddid y gwrthrychau data. Mae diddordebau dilys y Brifysgol a thrydydd partïon eraill yn canolbwyntio ar gefnogi gweithgareddau addysgol a gweithgareddau datblygu parhaus ar gyfer cyn-fyfyrwyr y Brifysgol ac eraill.

Cydnabyddir y bydd rhai o'r seiliau uchod yn gorgyffwrdd a gallai'r Brifysgol ddibynnu ar sawl sail sy'n cyfiawnhau ei brosesu cyfreithiol.

**Pryderon a manylion cyswllt**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiad ynghylch yr Hysbysiad hwn, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data, yn dpo@glyndwr.ac.uk

Ein cyfeiriad post cyffredinol yw Prifysgol Glyndŵr Wrecsam , Ffordd yr Wyddgrug Wrecsam LL11 2AW, y DU.

Ein rhif cofrestru rheolwr data a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw **Z5199192**

| **Adolygwyd**: Awst 2020 | **Awdur:** Leonna Messiter | **Ychwanegiadau:** Yn ymwneud â chasglu data personol a lle bo angen, rhannu data personol â thrydydd parti (yn cynnwys categori arbennig - yn ymwneud ag iechyd) at ddibenion Monitro, Olrhain a Diogelu. |
| --- | --- | --- |